**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**16.05.2024 @7.30pm (yn union ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **MATERION PERSONOL A CHROESO'R CADEIRYDD**
Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elgan Williams bawb i'r cyfarfod.

2. **PRESENNOL**
Y Cynghorydd Ieuan Davies;
Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
Y Cynghorydd Gareth Edwards;
Y Cynghorydd Alun Price Jones;
Y Cynghorydd Angharad Jones;
Y Cynghorydd Gareth Owen;
Y Cynghorydd Elgan Williams;
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) John Evans &
Eleri Thomas (Clerc).

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Mel Briant, Non Jones a Richard Jones am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU:**
**Fe wnaeth SCCH John Evans gyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau'n ystod y mis diwethaf:**

*Ymddygiad gwrthgymdeithasol / Aflonyddwch: sero
* Bwrgleriaeth: sero
* Difrod troseddol: sero
*Lladrad: sero
*Trais / Ymosodiad: sero
*Galwadau twyll / Spam: sero

**Tîm Plismona Cymunedol:** Ymchwiliodd Swyddogion Troseddau Gwledig i ddigwyddiad ar y 4.05.2024 yn ymwneud â beiciau modur oddi ar y ffordd o'r DU a thramor yn ardaloedd Coedwig Tywi a Phyllau Teifi.
Dosbarthwyd taflenni gan yr Heddlu'n esbonio beth oedd yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd, fel y rhain. Cafodd gyrru anghyfreithlon effaith andwyol ar y dirwedd, llygredd sŵn, aflonyddwch a difrod i'r amgylchedd.
Atafaelwyd 11g o ganabis; cyfeiriodd yr heddlu defnyddwyr at wasanaethau addysg a chymorth.

**Problem parcio** ym Maesydderwen sy'n cynnwys 2 gar. Roedd perchnogion y ceir wedi eu hadnabod ac roedd y mater wedi'i dynnu at sylw Cyngor Sir Ceredigion. I atgofio Cyngor Sir Ceredigion o hyn.

**Problem parhaus gan gŵn**: adroddwyd bod perchnogion y ci yn sicrhau bod yr anifail dan sylw yn gwisgo ffroen ac yn cael ei ddal gan dennyn mewn mannau cyhoeddus.

**Poster Peryglon Cyllyll**: os yr ydych chi neu rywun yr ydych chi'n ei adnabod yn amau bod rhywun yn cario cyllell gellir hysbysu'r Heddlu drwy ffonio 101 neu'r elusen annibynnol Crimestoppers yn ddienw ar 0800 555 111. Mewn argyfwng deialwch, 999. I'w arddangos ar fb.

5. **DATGAN DIDDORDEB PERSONOL A RHAGFARNOL**
   Dim wedi'i ddatgan.

6. **CADARNHAD O GOFNODION 18 Ebrill 2024**
   **CYNIGIWYD (**y Cynghorydd Gareth Owen); **EILIWYD** (y Cynghorydd Ieuan Davies) a **PHENDERFYNWYD** bod cofnodion 18 Ebrill 2024 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ar wahân i'r ffaith na gofnodwyd gohebiaeth Mrs Clare Hughes.
   Tynnodd Clare sylw at faw cŵn, dail a glaswellt wedi'u taflu yng nghyffiniau Rock House, Pontrhydfendigaid, ardal a ddefnyddir gan blant ysgol wrth iddynt gerdded i'r ysgol. Adroddwyd y mater at sylw Cyngor Sir Ceredigion.
   Roedd Clare hefyd wedi gofyn mewn perthynas â phryd y byddai'r baneri'n ymddangos ar bolynau baner y gymuned. Roedd y Cynghorydd Ieuan Davies yn rhoi sylw i'r mater.
   Mae Clare wedi'i hysbysu.

7. **MATERION YN CODI**

**7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen**

Roedd y Cynghorydd Gareth Owen wedi cysylltu â Rosemary Whinnett a oedd yn barod i gynorthwyo'r Cyngor Cymuned yn yr ymdrech i geisio grant ar gyfer yr ardal chwarae i gynnwys matio a ffensio. Ar hyn o bryd roedd dwy sedd siglen yn ddiffygiol. Cost adnewyddu £258. Cytunwyd i aros am ganlyniad Arolwg Chwarae Blynyddol Rospa cyn symud y mater ymlaen.

**7.2 Diffibrilwyr o fewn y cyffiniau**

Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont oedd bellach 4-5 megis:

1. Tafarn y Teifi: Ffair Rhos (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
2. Neuadd Pantyfedwen, Bont: Clare Hughes wedi'i hawdurdodi'n warcheidwad o fewn y Gylchdaith.)
3. Abaty Ystrad Fflur. (darparodd y Cyngor Cymuned y bocs): Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies i gysylltu â'r Pwyllgor a gwneud y trefniadau angenrheidiol i apwyntio gwarcheidwad awdurdodedig ar gyfer y diffibriliwr hwn.
4. Siop y Pentre: Gwarcheidwad awdurdodedig yw Ceredig o fewn y Gylchdaith.
5. Cytunodd Pennaeth Ysgol Bont i'r diffibriliwr sy'n weddill gael ei leoli ar safle'r ysgol (o bosib o fewn y maes parcio). Bydd angen clustnodi Gwarcheidwad swyddogol ar gyfer y diffibriliwr. Angharad i gysylltu â'r Pennaeth i symud y mater yn ei flaen.

Cyngor parthed batris a phadiau newydd: cysylltwyd â Tomos Hughes, GIG Cymru.

Mae'n rhaid cofrestru diffibrilwyr, lleoliad a Gwarcheidwaid ar y Gylchdaith. Dylai hefyd fod yn Defib Zoll cyn y gellid derbyn padiau a batris yn rhad ac am ddim.

Os nad yw y fath Zoll, mae'r GIG yn barod i ddarparu batris/padiau un tro'n unig.
Batri-rhychwant bywyd – 5 mlynedd
Defib newydd. Bob 12-14 o flynyddoedd.
Padiau i'w newid ar ôl eu defnyddio, dyddiad dod i ben ac ar ôl 2.5 mlynedd.
Pauline Bett: GIG Cymru ar gyfer padiau a batris newydd 01545 580 944; 07922 080 553.

| LLEOLIAD | COD POST | MATH | GWARCHEIDWAD |
|---|---|---|---|
| 1.TEIFI INN | SY25 6BP | MINDRAY | Y Cynghorydd Ieuan Davies – Cofrestredig- Mae angen ymweld â gwefan y Gylchdaith yn rheolaidd |
| 2. NEUADD PANTYFEDWEN | SY25 6BB | ZOLL | MRS CLARE HUGHES- cofrestredig i ymweld â gwefan y Gylchdaith yn rheolaidd |
| 3. ABATY YSTRAD FFLUR ABBEY | SY25 6ES | ? | ? |
| 4. SIOP BENTREF BONT | SY25 6EE | ? | CEREDIG |
| 5.YSGOL BONT | SY25 6BL | MINDRAY | ? |

7.3 **Baneri: Ffair Rhos a'r ardal gyfagos:** Roedd y Cynghorydd Ieuan Davies wedi prynu 4 baner ansawdd trwm. £20 x 4. Wedi eu harddangos yn Ffair Rhos ac wrth fynedfa Tregaron i'r Pentref. Holwyd a oedd polyn arall ar gael.

7.4 **Cofnodi enwau ychwanegol ar Gofeb Ryfel Bont.** Mewn cyfathrebiad blaenorol gofynnodd Mr John Jones, Ffair Rhos a fyddai modd arysgrifio enwau ychwanegol ar y Gofeb Ryfel. Diolch i ymchwil ymroddedig Lyn Ebenezer, roedd enwau'r 3 a laddwyd mewn damwain awyren ym Mhen-Bwlch bellach yn hysbys sef:
Peilot: Swyddog Awyr GB Bainbridge
Peilot Cynorthwyol: RG Cosgrave;
Serjant Aer Ategol: W. Powell
Yn ogystal, roedd enw arall ar goll o gofeb y Rhyfel Byd Cyntaf. Diolch eto i Lyn, - Richard David Davies, Rock House. Bu'n byw ym Mhontrhydfendigaid nes iddo ymfudo gyda'i deulu i Awstralia ac ymuno â byddin y wlad honno. Bu farw yn Fromelles yn 1916.
Cysylltwyd â Paul James i ofyn a allai arysgrifio enwau'r uchod ar blac.

**Cyflwynodd James Memorials Cyf Dyfynbris.**
i gyflenwi un plac gwenithfaen caboledig coch Balmoral deuddeg "x 8" x 2". Torri arysgrif yn ôl y gofyn a'i gorffen mewn deilen aur. Plac wedi'i osod i'r gofeb rhyfel islaw'r plac presennol yn ôl yr angen.
Ychwanegu arysgrif newydd (Richard David Davies, Rock House) ar ochr ddeheuol y gofeb rhyfel wedi'i thorri â llaw i gyd-fynd â llythrennau presennol ac wedi gorffen mewn deilen aur.
Roedd cynllun drafft yr arysgrif wedi'i amgáu.
i gyd am y swm o £1495.00
TAW @ 20% £299.00
CYFANSWM £ 1794.00
**Ystyriwyd y grant uchod. PENDERFYNWYD**: cysylltu â Grant Gofeb Rhyfel Prydain, Grant Lleng Brydeinig Frenhinol a Grant Cadw.

Dim grant ar gynnig gan *Cadw* ar gyfer y gwaith ar hyn o bryd.
Ymddiriedolaeth Goffa Rhyfel: Ffurflen Cyn-ymgeisio Grantiau i'w chwblhau. Bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer y gwaith. Byddai'n cael ei holi a allai enwau'r 3 unigolyn, a laddwyd yn drasig o ganlyniad i ddamwain awyren, gael eu

harysgrifio ar y Gofeb Ryfel gan nad oeddent o'r ardal leol a gellid wedi cofnodi eu henwau mewn mannau eraill.

**7.5 Torri glaswellt, yn y Pentref dros fisoedd yr haf.**
Triongl Ystâd Maesydderwen: Barcud yn gyfrifol. Rhwng 22/23 Maesydderwen – Barcud yn gyfrifol (trosglwyddwyd i Dai Ceredigion, Barcud erbyn hyn ym mis Rhagfyr 2009) a hefyd y tu allan i 7/8/9 Maesydderwen. PENDERFYNWYD: Cysylltu â Barcud i sefydlu pa mor aml y caiff glaswellt ei dorri o fewn eu cylch gwaith ar Ystâd Maesydderwen.

**7.6 Casgliad Sbwriel o fewn y cyffiniau:** Dydd Mercher 1 Mai 2024 @5.30pm. Casglwyd sbwriel o Bont i Faesllyn; Bont i Font Meurig, Bont i Stryd Teifi. Roedd disgyblion yr Ysgol Feithrin, yr Ysgol Gynradd a chynrychiolwyr y Gymuned wedi cynnig eu gwasanaeth. Cytunwyd i ddiolch iddynt ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned.

**7.7 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru:** Ymgynghoriad ar Gynigion Ffiniau Wardiau Cymunedol: Cynigiodd y Comisiwn ddiddymu cymunedau Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig ac uno'r 3 ardal i ffurfio ward newydd megis *Cymuned Ystrad Fflur.* Cynigiwyd i drefniadau arfaethedig cynghorau cymuned newydd Ystrad Fflur gael cyfanswm o 1,274 etholwyr a chael eu cynrychioli gan saith cynghorydd cymuned o'i gymharu â'r chwech ar hugain presennol.
Cynhaliwyd Cyfarfod Agored ddydd Iau 2 Mai 2024 am 7pm yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen i drafod ymateb y Cyngor Cymuned a hefyd yr ymateb ar y cyd o Gynghorau Cymuned Ystrad Ffflur, Ystrad Meurig ac Ysbyty Ystwyth. Dogfennau ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Ystrad Fflur.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad yn electronig yn ôl cais Cyngor Sir Ceredigion a gellir ei weld ar y wefan.

WARDIAU TREGARON AC YSTRAD FFLUR
Roedd y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies hefyd wedi cyflwyno ymateb yn nodi y dylai unrhyw ffiniau gael eu cyfuno o fewn ffiniau'r cyngor. Dylid ystyried yn ofalus wrth uno cynghorau tref a chymuned. Credai y dylai Cyngor Cymuned Ystrad Fflur (tua 600 o etholwyr) a Chyngor Tref Tregaron (950 o etholwyr), aros fel dau endid annibynnol. Roedd gan y ddau Gyngor, Tref a Chymuned hunaniaeth unigol grymus, Tregaron, un o drefi marchnad hynaf yng Nghymru, tra bod Ystrad Fflur o bwysigrwydd hanes a diwylliant canoloesol Cymru, gan mai hwn oedd Llys yr Arglwydd Rhys. Cyd-weithiodd y Cyngor Cymuned yn agos ag Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur a oedd bellach yn geidwaid fferm yr Abaty. Yn ddiweddar, roedd yr ymddiriedolaeth wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Treftadaeth Heneb y Byd a buddsoddwyr preifat, amcangyfrifwyd bod y prosiect a ragwelir gwerth tua deng miliwn o bunnoedd yn y blynyddoedd i ddod, felly roedd yn bwysig iawn bod Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn cadw ei frandio unigryw gan helpu i yrru'r prosiect cyffrous hwn o bwysigrwydd cenedlaethol Cymru.

Gwirfoddololodd Cynghorwyr y ddau Gyngor yn ddiflino yn eu cymuned, gan greu digwyddiadau a gweithio'n agos â sefydliadau lleol i sicrhau tref a chymuned llewyrchus, a byddai lleihau nifer y cynghorwyr yn rhoi mwy o faich ar Dregaron ac Ystrad Fflur a fydd, yn y pen draw, yn niweidiol i'r ddwy Gymuned. Bydd lleihau'r niferoedd yn ei gwneud hi'n anodd cadw ac ymrestru cynghorwyr.

**7.8** **Gohebiaeth gan y Cynghorydd Ieuan Davies ar ran Mr Ted Jones, Ffair Rhos** yn gofyn tybed a fyddai modd gosod arhosfan bws newydd yn Ffair Rhos i fod o gymorth i deithwyr sy'n teithio i gyfeiriad Ystrad Meurig. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng dirprwyaeth y Cyngor Cymuned a Mr Ted Jones. Nid oedd angen caniatâd cynllunio i osod y Lloches Fysiau mewn lle. Angen Ffotograffau. Gallai'r Cyngor Sir, o bosibl, dalu'r gost.

**7.9** **Torri Coeden yr Onnen i lawr ar y Glas:** Dim datblygiadau.

**7.10** **Llifogydd yn parhau** yng nghyffiniau'r Llew Coch er gwaethaf y ffaith bod coeden wedi ei thorri i lawr.

**7.11** **Cynrychiolwyr ar Is-bwyllgorau: Pwyllgor y Fynwent:** Cyngh. Angharad Jones a'r Cyngh. Elgan Williams: cynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Un Llais Cymru;** Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion: 4.07.2024 am 7pm Neuadd Goffa Cei Newydd. Er gwybodaeth.

**8.2** **Cynrychiolydd Cynghorydd Tref a Chymuned** ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion: dyddiad cau 31.05.2024. Er gwybodaeth

**8.3** **Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi’u anfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

## 9. CYNLLUNIO

**Dim materion cynllunio.**

## 10. CYLLID

**10.1** **Archwilio Cymru; Archwiliad llawn Cyngor Cymuned Ystrad Fflur, 2023-24.** Dogfennau wedi’u derbyn.

**10.2** **Cyflog y Clerc Mai 2024** £238.33

**10.3** **Zurich Municipal** Yswiriant: £621.27

**10.4** **Baneri;** d/l Cyng Ieuan Davies £85.89

## 11. Eitemau ar gyfer Facebook

**11.1** **Poster Peryglon Cyllyll**

**11.2** **Post yn diolch i'r holl unigolion a oedd wedi cynorthwyo i gasglu sbwriel ar y 1.05.2024**

**Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Dydd Iau 20 Mehefin 2024 @7pm.**

**Dyddiad / Arwyddo ---------------------------------------------------------------------------------------**

.